

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	12 Mehefin 2025
Pwnc:	Adroddiad blynyddol y Gymraeg 2024 i 2025
Cadeirydd sgriwtini:	Cynghorydd Dylan Rees

1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

Aelod Portffolio	Rôl
Cynghorydd Dafydd Roberts	Aelod portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg
Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)	Rôl
Ffreuer Owen	Rheolwr Polisi a'r Gymraeg

2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n arferiad i gyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r pwyllgor pob mis Mehefin i ddarparu her 'cyfaill beirniadol'. Gwneir hyn er mwyn sicrhau ein bod yn ar y trywydd iawn i gyflawni ein dyletswyddau statudol a'n hymrwymadau polisi, ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

- ☒ Er sicrwydd
- ☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
- ☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

Gwahoddir y pwyllgor i graffu a gwneud sylwadau ar adroddiad blynyddol y Gymraeg ar gyfer 2024 i 2025 cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyedig gan yr aelod portffolio i'w gyhoeddi.

4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Mae'r iaith Gymraeg yn un o amcanion strategol y cynllun. Mae'n cynnwys ymrwymadau i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, darparu gwasanaethau Cymraeg o safon ac i ddatblygu defnydd o'r iaith yn ein gweinyddiaeth.

5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Hyfforddiant a chefnogaeth iaith Gymraeg
2. Mesurau cyfredol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol
3. Blaenoriaethau'r cyngor ar gyfer i flwyddyn ariannol bresennol

6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 rhaid paratoi adroddiad blynyddol yn egluro sut aeth y cyngor ati i gwrdd â'n dyletswyddau dab y safonau. Ymwna'n benodol â gwasanaethau a gweinyddiaeth y cyngor ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Camau a gymerwyd i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaethau, llunio polisi a gweithredu.
- Camau gweithredol i hyrwyddo safonau'r Gymraeg.
- Hunan reoleiddio.
- Gwaith datblygol i hybu defnydd o'r Gymraeg gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau, ein swyddogion ac yn ein gweinyddiaeth.
- Adrodd ar berfformiad – data cwynion, cyflogaeth, hyfforddiant a recriwtio.

(Mae strwythurau statudol ar wahân yn bodoli mewn perthynas ag addysg Gymraeg â'n strategaeth hybu'r Gymraeg.)

Prif feysydd llwyddiant y cyfnod yw:

- Diweddarau ein polisi iaith Gymraeg.
- Cynnydd yn niferoedd swyddogion ac aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg.
- Cydweithio effeithiol gyda swyddogion hyfforddi a datblygu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig ystod o opsiynau hyfforddiant iaith Gymraeg.
- Sylw cenedlaethol i'n harferion.

7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Y brif ystyriaeth cydraddoldeb yw hygyrchedd yr adroddiad blynyddol a'r angen i'w wneud ar gael i gynulleidfa eang (cynulleidfa sy'n cynnwys unigolion sy'n perthyn i'r grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010). Mae'n bwysig bod arddull yr adroddiad yn addas ac yn rhwydd i'w ddilyn.

Yn unol â'n harfer bydd yr adroddiad ar gael mewn fformatau eraill, yn cynnwys braille a sain, drwy gais. Mae hyn wedi ei nodi'n glir tu mewn i glawr y ddogfen. Bydd hefyd ar gael ar ffurf copi caled yn adeiladau'r Cyngor i unrhyw un sy'n gofyn amdano.

Mae gofal arbennig wedi ei gymryd i sicrhau bod yr adroddiad yn rhwydd i'w ddarllen, bod yr arddull a'r ieithwedd yn addas ac yn gynhwysol, a'i fod yn cwrdd â gofynion hygyrchedd digidol.

Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i greu ymwybyddiaeth o'r adroddiad, ei rannu â phartneriaid perthnasol a pharatoi deunyddiau hyrwyddo sy'n crynhoi'r prif negeseuon.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Amherthnasol. Nid yw cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg yn benderfyniad strategol.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yn ogystal ag ystyried cydymffurfiaeth y cyngor gyda gofynion y safonau, mae paratoi'r adroddiad blynyddol yn gyfle pwysig i ystyried sut aethom ati i hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith trwy ein gwasanaethau cyhoeddus ac o fewn ein gweinyddiaeth. Gweler yr adroddiad am y camau a gymerwyd yn ystod y flwyddyn.

Yn unol â gofynion y safonau a'n polisi iaith Gymraeg mae'r adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hyn wedi ei nodi'n glir yn y fersiwn Saesneg.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Dim effaith.

8. Goblygiadau ariannol

Amherthnasol.

9. Atodiadau

Adroddiad blynyddol y Gymraeg 2024 i 2025

10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Ffreuer Owen, Rheolwr Polisi a'r Gymraeg

- [Polisi Iaith Gymraeg](#)
- [Llunio adroddiad blynyddol safonau'r Gymraeg: Dogfen gyngor arferion da](#)



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Adroddiad blynyddol y Gymraeg 2024 i 2025

Sut aethom ati i gyflawni ein dyletswyddau a hybu a hwyluso
cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith



Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025

Adroddiad blynyddol y Gymraeg

Trosolwg

Dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (y cyngor) ar safonau'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n gwerthuso sut yr aethom ati i:

- gydymffurfio â'r safonau a gweithredu ein polisi iaith Gymraeg
- hyrwyddo'r iaith a hybu a hwyluso cyfleoedd i'w defnyddio
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal ein busnes

Mwy o wybodaeth

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan yn www.ynysmon.llyw.cymru. Os oes ei angen arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion hyn.

Tîm Polisi a'r Gymraeg
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
LL77 7TU

Ffôn: 01248 75 00 57

E-bost: Cymraeg@ynysmon.llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

This publication is also available in English.

Dogfennau cysylltiedig

Hysbysiad cydymffurfio dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011; Polisi iaith Gymraeg; Strategaeth hybu'r Gymraeg 2021 i 2026; Cynllun y Cyngor. I gyd ar gael ar ein gwefan.

Cynnwys

Rhagair	1
Uchafbwyntiau'r flwyddyn.....	2
Crynodeb gweithredol	3
Blaenoriaeth un: wasanaethau Cymraeg.....	4
Blaenoriaeth dau: Defnydd mewnol o'r Gymraeg	7
Edrych ymlaen	11
Atodiad un: Data cwynion	13
Atodiad dau: Data sgiliau iaith Gymraeg, hyfforddiant a recriwtio	15
Atodiad tri: Cefndir yr adroddiad	21

Rhagair

Yn ein hadroddiad llynedd, soniom am y camau breision sydd wedi eu cymryd i sicrhau statws y Gymraeg yng ngwaith a gweinyddiaeth y cyngor. Eleni, crisialwyd y camau hynny mewn polisi iaith Gymraeg diwygiedig gafodd ei gymeradwyo gan ein cynghorwyr ym mis Mawrth 2025.

Atgyfnertha'r polisi iaith ein hymrwymiad trwy wneud yn glir bod ein holl wasanaethau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg. Mae'n adlewyrchu natur gwirioneddol ddwyieithog y cyngor trwy gadarnhau y defnyddir yr iaith ym mhob agwedd o'n gweinyddiaeth fewnol. Rydym yn hyderus y bydd y polisi iaith yn adnodd defnyddiol i bawb sy'n delio neu'n rhan o'r cyngor. Gallwch ei ddarllen ar ein gwefan, [y Gymraeg ar Ynys Môn](#), a'i dderbyn drwy gais yn ein safleoedd.

Er mwyn gweithredu ein polisi iaith yn effeithiol, mae'n hollbwysig bod ein staff yn cael eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Diolch i anogaeth rheolwyr, tîm y Gymraeg â'r tîm hyfforddiant mae mwy o'n gweithwyr nac erioed yn derbyn hyfforddiant trwy bartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Gallwch ddarllen mwy am raglen Cymraeg Gwaith y cyngor yn [newyddlen](#) ein tiwtoriaid Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin.

Mae cydweithio yn un o werthoedd craidd y cyngor sy'n ein helpu i wella trwy ddysgu o arbenigedd a phrofiadau ein gilydd. Fe wnaethom barhau i gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg, cynghorau ardal ARFOR, ac eraill i fodelu ein defnydd mewnol o'r iaith. Fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, lluniom adnodd i helpu'n gilydd recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i gynnal ein safon uchel o wasanaethau. Bu'n gwaith yn rhan bwysig o drafodaethau Fforwm Iaith Ynys Môn a braf oedd bod yn rhan o'r dathliadau wrth i'r fforwm nodi deg mlynedd o gydweithio er lles yr iaith.



Dylan J. Williams
Prif Weithredwr



Cyngorydd Dafydd Roberts
Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg

Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Prif bwrpas yr adroddiad blynyddol yw dangos sut yr aethom ati i gadw at ein dyletswyddau iaith Gymraeg a hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Ond, fel pob blwyddyn, mae hefyd yn gyfle i ddathlu gwaith arbennig ein staff sy'n cynnal ein safon uchel o wasanaethau Cymraeg.

Dyma rai o'r uchafbwyntiau:



Diweddaru ein polisi iaith



Dros 70% o staff â'r lefel uchaf o sgiliau Cymraeg



200% o gynnydd mewn staff yn derbyn hyfforddiant



Cydweithio er lles y Gymraeg yn lleol



Mwy o sylw cenedlaethol i'n harferion



Gair am ein gwasanaethau Cymraeg

"Mae'r cyfleoedd dwi'n eu derbyn a'r help dwi'n ei gael i ddysgu Cymraeg, diolch i'r cyngor, yn werthfawr iawn."

Aelod etholedig o'n pwyllgor craffu

"... Nid wyf erioed wedi teimlo dan anfantais yng nghyfarfodydd y cyngor. Mae'r gwasanaeth cyfieithu heb ei ail."

Aelod llewyg



Crynodeb gweithredol

Prif bwrpas yr adroddiad blynyddol yw dangos ymrwymiad parhaus y cyngor i gynnal a gwella ein gwasanaethau Cymraeg. Gwyddom fod y Gymraeg yn bwysig i'r bobl a wasanaethwn a'n nod bob amser yw rhoi'r gwasanaeth gorau bosib i drigolion Ynys Môn. Er gwaetha heriau ariannol a disgwyliadau cynyddol ar wasanaethau'r cyngor, dangosom wytnwch a dyfeisgarwch eto eleni.

Trwy wneud yr iaith yn **amcan strategol** yng Nghynllun y Cyngor, caiff cyfrifoldeb am weithredu'r safonau a chynnig gwasanaethau Cymraeg o safon ei rannu'n gadarnhaol ar draws y sefydliad. Cyniga ein **polisi iaith** sicrwydd i bawb sy'n delio efo neu'n rhan o'r cyngor bod ein holl wasanaethau ar gael yn ddirwysr.

Er mwyn sicrhau bod y polisi iaith yn cael ei weithredu, rhaid gosod sylfaen gadarn. Roedd paratoi **cynllun caffael strategol** newydd sy'n gosod uchelgais i gefnogi busnesau lleol yn gam pwysig. Bydd gweithredu'r cynllun yn helpu cefnogi'r economi ac yn ein caniatáu i ddefnyddio darparwyr lleol sy'n deall pwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg ym Môn.

I gynnal gwasanaethau o safon, rhaid gwneud yn siŵr bod gan ein staff y sgiliau Cymraeg angenrheidiol. Rydym yn falch bod **dros 70% o'n gweithwyr wedi adrodd bod ganddynt y lefel uchaf o sgiliau iaith Gymraeg**, sef lefel pump ar ein fframwaith. Mae pob aelod o'n uwch dimau rheoli – y tîm arwain, tîm rheoli corfforaethol a rheolwyr fforwm Môn – namyn un, yn ddefnyddwyr hyderus o'r iaith.

Er bod y sefyllfa staffio'n iach o safbwynt sgiliau Cymraeg, ni allwn gymryd hynny'n ganiataol. Mae heriau'n ein hwynebu o hyd, fel recriwtio i swyddi arbenigol, a diffyg hyder mewn sgiliau proffesiynol, fel cynnal cyfarfodydd a rhoi cyflwyniadau yn Gymraeg. Golyga hyn bod angen i ni gynnal **ystod eang o hyfforddiant** iaith Gymraeg a gweithio'n gyson i sicrhau bod ein cydweithwyr yn manteisio ar y gefnogaeth.

Mae ymdrechion rheolwyr, y tîm hyfforddiant, a thîm y Gymraeg i hyrwyddo ein gwersi Cymraeg yn sicr wedi dwyn ffrwyth, gyda **chynnydd o dros 200% yn y nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant** o gymharu â'r llynedd. Diolch i bartneriaeth effeithiol gyda thiwtoriaid Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin mae mwy o swyddogion y cyngor nac erioed yn derbyn help i wella eu sgiliau Cymraeg. Hefyd, am y tro cyntaf, mae rhai o'n cynghorwyr yn dysgu ar y cyd gyda'n staff.

Mae nifer y **cwynion** am ein gwasanaethau Cymraeg **yn parhau i fod yn isel** ac yn gyson â'r blynyddoedd diwethaf. Er hynny, ar adeg paratoi'r adroddiad, mae Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried un gŵyn ac wedi agor un ymchwiliad yn ein herbyn. Byddwn yn cydweithredu'n llawn ag unrhyw gamau er mwyn dysgu o unrhyw gamgymeriadau.

Braf oedd cael ein cydnabod eto eleni gan Gomisiynydd y Gymraeg am weithredu'r safonau. Cafodd gwybodaeth ein strategaeth hybu'r Gymraeg, ein defnydd mewnol o'r iaith, a'n trefniadau asesu effaith ei rhannu â chynulleidfaoedd rhyngwladol a chenedlaethol fel **arfer effeithiol**. Trwy gydweithio i rannu gwybodaeth gobeithiwn y gallwn ddysgu gan ac ysbrydoli eraill i ddilyn ein hesiampl.

Blaenoriaeth un: wasanaethau Cymraeg

Mae'r adran hon yn crynhoi camau i gadw at safonau cyflenwi gwasanaethau a llunio polisi. Y safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n ymwneud â'r ffordd yr ydym yn delio â'r cyhoedd. Ymysg pethau eraill, maent yn sôn am ddelio â phobl dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, ein cyhoeddiadau â'n presenoldeb ar-lein. O dan y safonau llunio polisi rhaid i ni hefyd ystyried effaith ein penderfyniadau ar y Gymraeg.

Rheoli perfformiad

Dangosyddion

Rhannwyd diweddariadau chwarterol ar ein dangosyddion iaith Gymraeg fel rhan o'n cerdyn sgorio. Gwelwyd cynnydd yng nghanran y swyddi a hysbysebwyd yn gofyn am lefel uchel o sgiliau iaith Gymraeg, a nifer swyddogion yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg. Roedd tueddiadau mewn perthynas â niferoedd cwynion am wasanaethau a dilynwyd ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg yn gyson. Gallwch weld y cerdyn sgorio ar ein [gwefan](#).

Hunanasesu

Fel bob blwyddyn, ystyriodd ein tîm rheoli corfforaethol gydymffurfiaeth eu gwasanaethau â'n dyletswyddau iaith Gymraeg. Eto eleni, cafwyd sicrwydd cyffredinol bod y naw gwasanaeth yn cwrdd â gofynion y safonau a'n polisi iaith. Roedd hyn yn bennaf oherwydd sgiliau iaith Gymraeg ein staff a lefel uchel o ymwybyddiaeth o'r gofynion.

Y brif her a nodwyd yw recriwtio i swyddi o natur arbenigol. Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn roedd rhai swyddi'n parhau wag yn dilyn mwy nag un ymdrech recriwtio. Cyhoeddom gyngor i reolwyr yn 2019 yn nodi mai dim ond ar ôl dwy ymgais aflwyddiannus i benodi y caniateir ail-ystyried gofynion iaith swydd. Cafodd y cyngor hwnnw ei ymgorffori yn ein polisi iaith diwygiedig i gynnig sicrwydd ychwanegol na ellir newid y gofynion heb ystyriaeth a chaniatâd ein panel penodi.

Cydweithiom fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn i baratoi adnodd ymarferol i reolwyr i'w helpu i ddenu ymgeiswyr â sgiliau iaith Gymraeg.

Mae'r polisi iaith hefyd yn gosod disgwyliadau ar swyddogion i geisio caniatâd a dilyn canllawiau priodol wrth gomisiynu gwasanaethau digidol. Roedd hyn mewn ymateb i fylchau a nodwyd y llynedd yn nealltwriaeth cwmnïau allanol am y gofynion iaith Gymraeg sydd wedi eu gosod arnom.

Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg

Cyfarfu'r grŵp bedair gwaith yn ystod y flwyddyn i ystyried ein cynlluniau i hyrwyddo a datblygu defnydd o'r Gymraeg. Ymhlith materion eraill, arweiniodd y trafodaethau at:

- Wella cyfathrebu gydag aelodau etholedig ac arwain at gynghorwyr yn derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

- Treialu sesiwn ymwybyddiaeth iaith newydd gan iaith Cyf gyda dysgwyr a siaradwyr Cymraeg hyderus.
- Cynnal sawl digwyddiad i ddathlu ymdrechion ein dysgwyr Cymraeg yn cynnwys teithiau cerdded, boreau coffi a sesiynau paned a sgwrs efo rheolwyr.

Arfer effeithiol

Mae esiamplau o arferion effeithiol gan wasanaethau sy'n mynd ati'n rhagweithiol i wella eu perfformiad eu hunain yn cynnwys:

Mwy o bencampwyr iaith Gymraeg yn y gwasanaethau Trawsnewid, Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Ystyriaeth i'r Gymraeg yn y Cynllun Strategol Caffael ar gyfer 2024 i 2029

Staff Canolfan Fusnes Môn yn cynnal fforymau trafod Cymraeg ar bynciau llosg a materion cyfredol



Mwy o gynnwys ar ddashfwrdd y Gymraeg ein Cronfa Ddysgu

Geirfa newydd ar gyfer y maes hamdden a gofal

Asesu effaith

Cafodd ein hasesiad o effaith penderfyniad anodd yn ymwneud ag ad-drefnu addysg ei gydnabod gan Gomisiynydd y Gymraeg fel esiampl o arfer dda. Mewn digwyddiad cenedlaethol ar ganfyddiadau llinell holi allweddol ar y safonau llunio polisi, rhoddwyd cyflwyniad ar ein trefniadau asesu effaith iaith Gymraeg.

Cyfieithu

Fel arfer, mae cefnogaeth y gwasanaeth cyfieithu'n hanfodol er mwyn cwrdd â'n dyletswyddau o dan y safonau. Cyfieithodd y tîm **bron i ddwy filiwn** o eiriau eleni **(1,922,449)** a darparodd wasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn **270 o gyfarfodydd**, sy'n gynydd o gymharu â 255 o gyfarfodydd y llynedd.

Gwirio uniongyrchol

Arolygon cydymffurfiaeth

Cynhaliodd dîm y Gymraeg arolygon siopwr cudd o'n gwasanaethau ffôn eto eleni wnaeth ganfod lefelau uchel o gydymffurfiaeth â gofynion y safonau a'n polisi iaith. Aseswyd bod swyddogion yn cyfarch galwyr yn Gymraeg yn gyntaf ac a'r sgiliau oedd eu hangen i ddelio â galwadau yn Gymraeg.

Deall profiadau defnyddwyr

Cwynion

Derbyniom **saith cwyn** eleni oedd yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg, yr un nifer a dderbyniom y llynedd. Mae eu manylion wedi eu cynnwys yn yr atodiadau.

Ar adeg paratoi'r adroddiad roedd Comisiynydd y Gymraeg yn ystyried pa gamau i'w cymryd mewn perthynas ag un o'r cwynion hynny ac wedi agor un ymchwiliad statudol i orfodi'r safonau.

Blaenoriaeth dau: Defnydd mewnol o'r Gymraeg

Mae'r rhan hwn o'r adroddiad yn crynhoi camau i gynnal statws y Gymraeg yn ein gweinyddiaeth ac i gefnogi ein swyddogion a'n cynghorwyr i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith.

Rheoli perfformiad

Polisi iaith Gymraeg

Nodom yn ein hadroddiad llynedd ein bwriad i adolygu ein polisi iaith Gymraeg oedd ar waith ers i safonau'r ddod i rym yn 2016. Rydym yn falch o adrodd bod ein polisi iaith ddiwygiedig wedi'i fabwysiadu'n unfrydol gan y Cyngor llawn.

Diweddariad yw'r polisi iaith sy'n adlewyrchu ein harferion mewn perthynas â'r Gymraeg a'n dealltwriaeth o ofynion y safonau. Mae'r prif ddatblygiadau'n ymwneud â'n defnydd mewnol o'r iaith a'r gwahanol fesurau sy'n cynnal statws y Gymraeg fel iaith gweinyddu. Yma mae ein harferion wedi datblygu'n bennaf, gan drawsnewid y cyngor i fod yn un sy'n defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i fusnes mewnol. Mae'r broses hon o newid diwylliant wedi bod yn un graddol a bwriadus yn canolbwyntio ar gefnogaeth, hyfforddiant a newidiadau i arferion recriwtio.

Mae'r prif ddatblygiadau polisi yn cynnwys:

- Ymgorffori arweiniad a gyhoeddwyd yn 2019 sy'n gwneud y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swyddi'r cyngor, i wahanol lefelau yn unol â'n fframwaith sgiliau iaith.
- Ychwanegu adran yn ymwneud â rolau aelodau etholedig a lleyg er mwyn ei gwneud yn glir o dan ba amgylchiadau mae disgwyl iddynt gydymffurfio â'r safonau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Ymrwymo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg ac i gymell eraill i weithredu i'r un safonau â ni wrth gydweithio.

Gwnaethom ymgais fwriadol i symleiddio arddull ac iaith y polisi er eglurder y cyhoedd, swyddogion, aelodau ac eraill sy'n delio efo cyngor. Dylai cyfleu gofynion y polisi yn glir a chryno wella ein cydymffurfriad efo'r safonau a chyflawni ein hamcanion strategol.

Recriwtio

Eto eleni, roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer pob swydd a hysbysebwyd gennym. Mae natur a dyletswyddau'r swyddi sy'n cael eu hysbysebu yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Eleni, roedd mwyafrif y swyddi gwag yn gofyn am sgiliau iaith Cymraeg canolradd, sef lefel tri ar ein fframwaith. Dangosodd y cerdyn

sgorio corfforaethol gynnydd bychan hefyd yn nifer y swyddi oedd yn gofyn am sgiliau iaith Gymraeg uwch, sef lefelau pedwar a phump ar ein fframwaith.

Bu penodi i swyddi arbenigol yn her eleni, er enghraifft swyddi cyfreithiol a swyddi caffael. Fodd bynnag, gwelsom gynnydd cadarnhaol mewn maes sydd wedi profi'n heriol i ni yn y gorffennol, sef technoleg gwybodaeth. Yn dilyn ymdrech recriwtio ac ailstrwythuro, mae gan fwy o'n swyddogion TG sgiliau iaith Gymraeg lefel uwch ac mae mwy ohonynt nac erioed yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg.

Mynychodd 77 aelod newydd o staff sesiwn ymwybyddiaeth iaith a gofynion y safonau fel rhan o'r broses anwytho. Fe wnaethom hefyd dreialu sesiwn ymwybyddiaeth iaith newydd gan iaith Cyf efo 14 o gydweithwyr gyda bwriad i'w gynnig i bawb yn y dyfodol.

Modelu ein defnydd mewnol o'r Gymraeg


Parhaom i gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg, cynghorau Gwynedd a Sir Gâr, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac eraill, ar brosiect i fodelu ein defnydd mewnol o'r iaith a helpu sefydliadau eraill.

Braint oedd cyflwyno gwybodaeth am ein harferion gweithio i gynulleidfya ryngwladol yng nghynhadledd Cymdeithas Comisiynwyr Iaith y Byd yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2024. Gallwch wrando ar gyfraniad ein rheolwr polisi a'r Gymraeg ar [wefan](#) y gymdeithas.

Deall profiadau defnyddwyr

Rhaglen Cymraeg Gwaith

Heb os, prif stori llwyddiant eleni yw'r cynnydd aruthrol yn nifer ein staff sy'n derbyn hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae cynllun y cyngor yn ymrwymo i gefnogi ein staff a'n cynghorwyr i gynyddu eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith. Diolch i ymdrechion rheolwyr, y tîm hyfforddiant a thîm y Gymraeg, a phartneriaeth effeithiol efo tiwtoriaid Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, mae mwy o'n staff nag erioed yn mynychu gwersi Cymraeg. Ers 2022/23 mae'r niferoedd sy'n dysgu wedi codi o 15 i 89.



Caiff gwersi mynediad, sylfaen a chanolradd eu cynnal bob wythnos yng Nghanolfan Fusnes Môn gan ddau diwtor penodol fel rhan o raglen Cymraeg Gwaith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Eleni, roedd cefnogaeth ychwanegol i siaradwyr Cymraeg wella eu sgiliau proffesiynol ar gyrsiau deg wythnos magu hyder a datblygu sgiliau iaith ym mharc gwyddoniaeth MS-Parc ac ar lein.

Rhoddod bwyslais ar ddathlu cynnydd ein dysgwyr trwy gynnal digwyddiadau fel boreau coffi a sesiynau paned a sgwrs efo rheolwyr. Mae cefnogaeth rheolwyr yn allweddol i lwyddiant y prosiect a thrwy eu cynnwys yn nhaith dysgu eu swyddogion, mae cyfraddau cwblhau'r cyrsiau yn cynyddu a diddordeb yn y gwersi yn tyfu. Gallwch ddarllen mwy am raglen Cymraeg Gwaith y cyngor yn [newyddlen](#) ein tiwtoriaid.



Dyma farn rhai o'n dysgwyr a'u rheolwyr ar y gefnogaeth i wella eu sgiliau iaith Gymraeg:

“Ers mynychu'r cwrs gyda Eleri, mae fy hyder i ddefnyddio fy Nghymraeg wedi cynyddu ac rwy'n teimlo y gallaf nawr gyfrannu at sgysiau yn y lle gwaith y Gymraeg yn rhwydd a heb or-feddl, sy'n deimlad braf iawn!”

Swyddog Sgriwtini (Datblygu sgiliau iaith)

“Be 'da ni wedi weld ydi shiftt amlwg yn hyder [yr aelod staff] o ran ei defnydd hi o'r Gymraeg, nid yn unig yn y gweithle ond hefyd adra efo'i phlant.”

Rheolwr Sgriwtini

“Mae'n dda iawn, mae Eryl yn athrawes dda iawn a dwi'n dysgu lot yn y dosbarth. Mae'n bwysig siarad Cymraeg efo'r bobl 'da ni'n gweithio efo a syportio, so dwi jest eisiau gweithio ar hyder fi i siarad yn Gymraeg efo nhw, a hefyd pobl yn y swyddfa.”

Swyddog Iechyd a Lles (Canolradd)

“Rhan o'r amod wrth benodi [...] oedd ei fod o'n dechrau cwrs i gynyddu faint o Gymraeg oedd ganddo. Mae o wedi gweithio ei hun i fyny drwy'r cwrs, mae o'n dechrau siarad Cymraeg efo ni ei gydweithwyr sy'n beth da, mae'i eirfa fo wedi datblygu, mae o'n treiglo'n eithaf da hefyd sy'n cymryd dipyn o waith.

“Da ni'n defnyddio Cymraeg efo trawstoriad eang o bobl o ysgolion i ffermwyr ac mae o'n awyddus i ddysgu er mwyn defnyddio'r iaith efo pawb.”

Swyddog Cefn Gwlad



Edrych ymlaen

Dyma gipolwg ar rai o'r datblygiadau sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn i ddod:



Paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026



Adolygu ein strategaeth hybu'r Gymraeg



Sefydlu grŵp llywio'r Gymraeg a chydraddoldeb



Profi gwybodaeth staff am y safonau



Mwy o ddigwyddiadau i ddathlu a cefnogi ein dysgwyr

Flwyddyn nesaf byddwn yn edrych ymlaen at groesawu Eisteddfod yr Urdd i Ynys Môn. Bydd yr achlysur arbennig hwn yn gyfle i ni ddathlu ein hymrwymiad i'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Byddwn yn cydweithio'n agos â'n hysgolion er mwyn gwneud yn siŵr bod pob un o'n pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan a defnyddio'u Cymraeg. Bydd hefydd yn amser i ni adlewyrchu ar lwyddiant ein strategaeth hybu'r Gymraeg a pharatoi cynllun pum mlynedd newydd.

Bydd dyletswyddau grŵp hyrwyddo'r Gymraeg yn cynyddu. Ein bwriad yw peilota ymestyn ein strwythurau iaith Gymraeg cadarn i'r maes cydraddoldeb.

Byddwn yn parhau i dynnu sylw at ein polisi iaith er mwyn annog mwy o ddefnydd o'n gwasanaethau Cymraeg. Bydd dealltwriaeth ein cydweithwyr o'r polisi a gofynion y safonau hefyd yn cael ei brofi trwy broses y Porth Polisi.

Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein rhaglen Cymraeg Gwaith trwy gynnal mwy o ddosbarthiadau a digwyddiadau i ddathlu cynnydd ein dysgwyr. Bydd pwyslais yn cael ei osod ar eu cefnogi i ddefnyddio'r iaith ym mhob agwedd o'u bywyd gwaith.

Atodiad un: Data cwynion

Dyma fanylion y cwynion gafodd eu gwneud i ni dros y flwyddyn am ein defnydd o'r Gymraeg. Mae'r ddau dabl cyntaf yn cynnwys manylion cwynion sy'n cwrdd â diffiniad ein gweithdrefn gwynion, sef cwynion gan bobl a effeithiwyd yn uniongyrchol gan yr amgylchiadau.

Mae'r trydydd tabl yn cynnwys manylion cwynion 'eraill' neu sylwadau gan bobl yn nodi consyrn ond na effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol. Mae hefyd yn cynnwys cwynion sy'n ymwneud â'n defnydd o'r Gymraeg ond nad ydynt yn creu amheuaeth o fethiant i gydymffurfio â'r safonau.

Mae'r pedwerydd tabl yn nodi unrhyw ymchwiliadau statudol ar y gweill gan Gomisiynydd y Gymraeg i orfodi'r safonau'r Gymraeg, boed yn gysylltiedig â chwyn neu ar fenter y comisiynydd.

Tabl 1: Cwynion yn ôl dosbarth o safonau

Dosbarth safonau	Nifer
Cyflenwi gwasanaethau	5
Llunio polisi	2
Gweithredu	0
Cyfanswm	7

Tabl 2: Manylion cwynion

Cwyn	Dosbarth safonau	Manylion
2024/25-01	Cyflenwi gwasanaethau	Diffyg defnydd honedig o'r Gymraeg mewn dosbarth ffitrwydd canolfan hamdden
2024/25-02	Cyflenwi gwasanaethau	E-bost uniaith Saesneg at bartneriaid y gwasanaeth Dysgu
2024/25-03	Cyflenwi gwasanaethau	Diffyg defnydd honedig o'r Gymraeg mewn cartref preswyl
2024/25-04	Llunio polisi	Diffyg cefnogaeth honedig i ddisgybl dderbyn addysg drochi Cymraeg
2024/25-05	Cyflenwi gwasanaethau	E-bost uniaith Saesneg at bartneriaid y gwasanaeth Dysgu
2024/25-06	Llunio polisi	Diffyg ystyriaeth briodol honedig o'r Gymraeg wrth gynnal gwaith ymgysylltu
2024/25-07	Cyflenwi gwasanaethau	Methiant i ateb gohebiaeth Gymraeg

Tabl 3: Cwynion eraill

Rhif	Sylw
1	Diffyg defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion maes parcio preifat ddim yn gysylltiedig â'r cyngor

Tabl 4: Manylion ymchwiliadau statudol Comisiynydd y Gymraeg

Ymchwiliad	Dosbarth safonau	Manylion
YGS01	Cyflenwi gwasanaethau	Ymchwiliad wedi ei agor i gŵyn 2024/25-06 am ddiffyg ystyriaeth briodol honedig o'r Gymraeg wrth gynnal gwaith ymgysylltu

Atodiad dau: Data sgiliau iaith Gymraeg, hyfforddiant a recriwtio

Dyma wybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ein staff. Rydym wedi categorio'r data i gyd-fynd â diffiniadau ein fframwaith sgiliau iaith sy'n nodi gwahanol lefel o allu yn y Gymraeg:

Lefel 0: Ymwbyddiaeth

- Dim sgiliau

Lefel 1: Mynediad

- Yn gallu sgwrsio'n gyffredinol (cyfarchion, enwau, dywediadau, enwau lleoedd)
- Yn gallu deall ymholiadau sylfaenol
- Yn gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol, fel arwyddion neu nodiadau byr a syml
- Yn gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol

Lefel 2: Sylfaen

- Yn gallu ateb ymholiadau syml sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol
- Yn gallu darllen deunydd syml sy'n ymwneud â'r gwaith (yn araf)
- Yn gallu ateb gohebiaeth syml gyda chymorth

Lefel 3: Canolradd

- Yn gallu cynnal sgwrs â rhywun arall, gyda pheth petruster, am faterion gwaith arferol
- Yn gallu dilyn sgysiau arferol sy'n ymwneud â'r gwaith rhwng siaradwyr Cymraeg rhugl
- Yn gallu darllen deunydd arferol gyda geiriadur
- Yn gallu drafftio testun arferol, gyda chymorth golygyddol

Lefel 4: Uwch

- Yn gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gyda rhai geiriau Saesneg
- Yn gallu dilyn y rhan fwyaf o sgysiau sy'n ymwneud â'r gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp
- Yn gallu darllen y mwyafrif o ddeunydd yn eich maes eich hun
- Yn gallu paratoi'r rhan fwyaf o'r deunydd ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â'r maes, gyda pheth cymorth gwirio

Lefel 5: Medrus

- Yn gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen
- Yn gallu deall pob sgwrs sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â'r gwaith
- Yn medru cwblhau gwaith ysgrifennu cymhleth heb yr angen i wirio

Data sgiliau iaith Gymraeg: Crynodeb

Mae 73% o'n staff ar gyfartaledd yn disgrifio eu sgiliau iaith Gymraeg fel rhai medrus, sef y pumed lefel â'r uchaf ar ein fframwaith. Dim ond 3% o'n gweithwyr sydd heb sgiliau iaith Gymraeg.

Diagram 1: Sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth





Diagram 2: Sgiliau Cymraeg yn ôl graddfeydd cyflog

Sgiliau Cymraeg fesul gwasanaeth

Tîm Arwain (yn cynnwys prif weithredwr, dirprwy, cyfarwyddwr a chynorthwyr personol)

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 9

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	0	0	0	0	0	9
Canran	0%	0%	0%	0%	0%	100%

Adnoddau

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 94

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	1	4	5	6	9	69
Canran	1%	4%	5%	6%	10%	73%

Adnoddau Dynol a Thrawsnewid

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 94

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	6	3	2	4	17	62
Canran	6%	3%	2%	4%	18%	66%

Busnes y Cyngor

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 31

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	0	0	0	2	1	28
Canran	0%	0%	0%	6%	3%	90%

Dysgu

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 80

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	0	3	2	4	10	61
Canran	0%	4%	3%	5%	13%	76%

Gwasanaethau Cymdeithasol

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 689

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	24	48	47	25	114	404
Canran	3%	8%	7%	4%	17%	60%

Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 316

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	18	34	25	15	30	194
Canran	6%	11%	8%	5%	9%	61%

Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 348

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	4	20	17	31	50	226
Canran	1%	6%	5%	9%	14%	65%

Tai

Nifer o weithwyr yn y gwasanaeth: 185

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	5	6	8	12	25	129
Canran	3%	3%	4%	6%	14%	70%

Sgiliau Cymraeg yn ôl graddfeydd cyflog**Graddfa 1-5**

Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 1360

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	48	98	86	103	189	836
Canran	4%	7%	6%	8%	14%	61%

Graddfa 6-10

Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 455

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	10	18	20	20	65	322
Canran	2%	4%	4%	4%	14%	71%

Prif swyddogion

Nifer y gweithwyr yn y raddfa: 14

Lefel	L0	L1	L2	L3	L4	L5
Nifer	0	0	0	1	1	12
Canran	0%	0%	0%	7%	7%	86%

Data hyfforddiant

Hyfforddiant iaith Gymraeg

Dyma fanylion y niferoedd a dderbyniodd hyfforddiant i hybu neu ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

Cymhwyster	Nifer
Mynediad	26
Sylfaen	21
Canolradd	15
Lefel uwch (Datblygu sgiliau iaith)	19
Magu hyder	8
Cyfanswm	89

Iaith cyrsiau hyfforddiant

Ein nod yw dynodi a chadw cofnod o gyfrwng iaith pob un o'n sesiynau hyfforddi mewnol. Mae'n bwysig nodi nad yw dewisiadau cofnodi ein system adnoddau dynol yn ddelfrydol ar gyfer casglu data o'r fath wrth ystyried y ffigyrau isod. (Caiff addasiadau eu gwneud â llaw i sicrhau fod y data mor gyfredol â phosib.)

O ran y cyrsiau a ddynodir fel rhai 'dwyieithog', gall hyn olygu fod un ai'r hyfforddwr yn gallu cyflwyno'r sesiwn yn ddwyieithog neu fod darpariaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. Golyga hyn y gall swyddogion holi/ateb cwestiynau yn eu dewis iaith.

Mae'r tabl isod yn ystyried hyfforddiant sydd wedi cael ei gynnig yn fewnol dros y flwyddyn, ac yn dangos y nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg a dwyieithog yn ystod y flwyddyn. Dylid nodi bod mwyafrif yr hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ddwyieithog er hyblygrwydd a bod yn gost effeithiol.

	Nifer
Cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg	22
Cyrsiau hyfforddiant cyfrwng dwyieithog	993

Data recriwtio

Dyma fanylion y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym yn ystod y flwyddyn yn ôl eu gofynion sgiliau iaith Gymraeg. Er ein bod yn parhau i gategoreiddio swyddi yn unol â gofynion y safonau, dim ond mewn eithriadau prin yr ystyriwn sgiliau iaith Cymraeg yn ddymunol ar gyfer swyddi'r cyngor.

	Nifer
Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 1	63
Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 2	19
Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 3	217
Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 4	73
Swyddi lle bod sgiliau yn y Gymraeg Lefel 5	91
Swyddi lle bod lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

Atodiad tri: Cefndir yr adroddiad

1. **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd arnom i gadw at safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r safonau'n egluro sut mae disgwyl i ni ddefnyddio neu ystyried yr iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd. Egwyddorion sylfaenol y safonau yw:
 - na ddylem drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; ac
 - y dylem hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r iaith.
2. Derbyniom **hysbysiad cydymffurfio** gan Gomisiynydd y Gymraeg yn 2015. Dyma'r ddogfen sy'n nodi'r union safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw. Mae 160 o safonau i gyd wedi eu gosod arnom. Gallwch weld eu manylion, a darllen mwy am ein trefniadau i gwrdd â nhw, ar ein gwefan.
3. Ein **polisi iaith Gymraeg** sy'n egluro sut y byddwn yn gweithredu'n unol â gofynion y safonau. Mae'n dilyn yr egwyddor bod gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal yn ein gwaith a'n gweinyddiaeth. Mae'n cydnabod ein cyfrifoldeb ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu defnydd o'r iaith oddi fewn ac oddi allan i'r cyngor.
4. Ochr yn ochr â'n polisi iaith a'r safonau eu hunain, rydym yn cyhoeddi **adroddiad blynyddol** sy'n disgrifio sut yr ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae hefyd yn cynnwys data penodol y mae'n rhaid i ni adrodd arno'n flynyddol am gwynion, sgiliau Cymraeg ein swyddogion, hyfforddiant a swyddi a hysbysebwyd gennym. Mae'r wybodaeth hon i'w chael yn llawn yn yr atodiadau.
5. Cafodd yr adroddiad ei **gymeradwyo** gan ein tîm arweinyddiaeth, sy'n cynnwys ein prif weithredwr, dirprwy a'n cyfarwyddwyr. Craffwyd arno'n ffurfiol gan ein Pwyllgor Sgriwtini (Partneriaeth ac Adfywio) a chaiff ei gefnogi gan ein pwyllgor gwaith. Cafodd ei gymeradwyo'n derfynol gan yr aelod portffolio perthnasol.



Ein Rheolwr Polisi a'r Gymraeg sydd â chyfrifoldeb dydd i ddydd am y safonau ac am hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y cyngor. Y prif weithredwr yw'r uwch swyddog o'r tîm arweinyddiaeth sy'n gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith. Mae gennym hefyd aelod portffolio sy'n cymryd cyfrifoldeb am y Gymraeg ar y pwyllgor gwaith. Mae grŵp llywio sy'n cynnwys cynghorwyr a swyddogion allweddol, yn cadw trosolwg dros ein defnydd o'r Gymraeg ac yn helpu i hybu'r iaith ym mhob agwedd o'n gwaith.